# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 5

NEWIDIADAU ERAILL I LYWODRAETH LEOL

*Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd*

### 60 Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd

(1) Ar ôl adran 11 o Fesur 2011 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau gwasanaethau democrataidd) mewnosoder—

“**11A Adolygiadau ar gais awdurdod lleol**

(1) Caiff pwyllgor gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol, ar gais yr awdurdod, adolygu unrhyw fater sy’n berthnasol i—

(a) y cymorth a’r cyngor sydd ar gael i aelodau’r awdurdod hwnnw, a

(b) telerau ac amodau swydd yr aelodau hynny.

(2) Rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd lunio adroddiadau ac argymhellion i’r awdurdod yn dilyn adolygiad.

(3) Mater i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yw penderfynu sut i arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.”

(2) Yn adran 19 (adroddiadau ac argymhellion gan bwyllgorau gwasanaethau democrataidd), ar ôl “11(1)(c)” mewnosoder “neu 11A(2)”.